**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**ADRAN 23 DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

**CROESFAN ARFAETHEDIG I GERDDWYR AR A5026 STRYD CHITFFORDD, TREFFYNNON**

**RHODDIR RHYBUDD** drwy hyn fod Cyngor Sir y Fflint, drwy arfer ei bwerau dan Adran 23 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a’r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig;

a) Gosod Croesfan Cerddwyr Sebra yn y lleoliad fel y disgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

**Rheswm dros y Cynnig:** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi A5026 Stryd Chwitffordd, Treffynnon fel lleoliad addas i osod cyfleuster croesfan Sebra. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i osod croesfan a fydd yn helpu i sicrhau siwrneiau cynaliadwy i’r ysgol. Bydd y groesfan yn helpu i leddfu pryderon diogelwch mewn perthynas â mynediad uniongyrchol i’r ysgol yn ogystal â sicrhau buddion i’r gymuned ehangach.

Bydd y gwaharddiadau arferol yn erbyn cerbydau yn stopio, aros, llwytho a dadlwytho ar y gerbydffordd o fewn yr ardaloedd â llinellau igam ogam ar naill ochr y groesfan yn berthnasol.

Mae’n bosibl gweld copi o’r Hysbysiad hwn a chynlluniau sy’n dangos y ffyrdd a effeithir gan y cynigion, yn ystod oriau agor arferol yn Sir y Fflint yn Cysylltu,24 Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7LH, yn ystod oriau agor neu fe allwch eu gweld ar ein gwefan www.siryffint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy e-bostio streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.


Dylid anfon gwrthwynebiadau i’r cynnig, yn ogystal â’r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn neu e-bost i transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk erbyn dydd Gwener 15 Mawrth 2024 gan ddyfynnu cyfeirif SS/TRO/JB/A5026/ Sebra

**ATODLEN**

**Gosod Croesfan Sebra Newydd i Gerddwyr**

**A5026 Stryd Chwitffordd, Treffynnon –** ger ei chyffordd ag Ael-y-Ffynnon.

Dyddiedig y 23 Chwefror 2024



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR